# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 09/06/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Cefnogi Ffermwyr

**C9 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i gefnogi ffermwyr? OAQ(3)1075(RAF)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu ystod sylweddol a chynhwysfawr o raglenni, cynlluniau a pholisïau i hyrwyddo cynaliadwyedd a ffyniant amaethyddiaeth yng Nghymru yn y tymor hir, yn ogystal â gweithredu cynllun y taliad sengl yn effeithiol.

### Undebau Ffermwyr

**C10 Chris Franks:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gydag undebau'r ffermwyr? OAQ(3)1061(RAF)

**Elin Jones:** Yr wyf yn cwrdd yn gyson â'r undebau ffermio a chynrychiolwyr y diwydiant. Y mis diwethaf, bûm yn siarad â changen Sir Drefaldwyn Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, a byddaf yn siarad yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru yr wythnos nesaf. Hefyd, mae fy swyddogion yn cysylltu â'r undebau yn rheolaidd, ac mae eu cynrychiolwyr yn eistedd ar nifer o'm grwpiau rhanddeiliaid.

### Y Fferm Deuluol Draddodiadol

**C11 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mesurau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i amddiffyn y fferm deuluol draddodiadol? OAQ(3)1091(RAF)

**Elin Jones:** Mae 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfofol Cadarn' yn gosod fframwaith strategol y Llywodraeth i'r diwydiant amaeth. Craidd y strategaeth yw'r nod o greu dyfodol cynaliadwy a proffidiol i deuluoedd sy'n ffermio a busnesau fferm trwy gynhyrchu a phrosesu cynhyrchion fferm a choedwigaeth. Y fferm deulu draddodiadol yw conglfaen amaethyddiaeth yng Nghymru.

### Lles Anifeiliaid

**C12 Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am les anifeiliaid yn Islwyn? OAQ(3)1068(RAF)

**Elin Jones:** Mae fy ngwaith ar les anifeiliaid ledled Cymru yn cynnwys Islwyn fel pob ardal arall. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer adolygu deddfwriaeth ar fridio cŵn wedi cyfarfod bedair gwaith. Bydd y grŵp yn cyfarfod eto cyn i'r adroddiad gael ei roi i mi ddiwedd mis Mehefin. Cyhoeddwyd y codau ymarfer lles diwygiedig ar gyfer gwartheg a defaid ar 26 Mawrth 2010.

### Y Genhedlaeth Nesaf o Ffermwyr

**C13 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau ar gyfer annog y genhedlaeth nesaf o ffermwyr? OAQ(3)1095(RAF)

**Elin Jones:** Mae'r Llywodraeth yn gwireddu'i hymrwymiad 'Cymru'n Un' i gyflwyno cynllun i helpu newydd-ddyfodiaid i ffermio. Hefyd, mae gwasanaeth hyfforddiant a throsglwyddo gwybodaeth ar gael trwy Cyswllt Ffermio. Mae cymorth lleol i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig hefyd yn cael ei ddatblygu o dan echel 3 a 4 o'r cynllun datblygu gwledig.

### Cefnogaeth i Gymunedau Gwledig

**C14 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth i gymunedau gwledig yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)1079(RAF)

**Elin Jones:** Mae 'Cymru'n Un' yn disgrifio blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r Llywodraeth ar gyfer cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys cymunedau cefn gwlad. O fewn fy mhortffolio innau, maent yn cael eu cyflawni trwy gynllun datblygu gwledig Cymru.

### Cynhyrchwyr Bwyd Lleol

**C15 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i gynhyrchwyr bwyd lleol? OAQ(3)1081(RAF)

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i helpu cynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru drwy gefnogi nifer o fentrau, gan gynnwys bod yn bresennol mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd bwyd mawr ledled y Deyrnas Unedig, gwobrau'r Gwir Flas, gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadweydd a Thai

### Blaenoriaethau

**C9 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(3)1299(ESH)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Yr wyf yn parhau i fod wedi ymrwymo i wireddu'r amcanion sydd yng nghytundeb 'Cymru'n Un', gan gynnwys y rhai sy'n ymdrin â newid hinsawdd, rheoli risg llifogydd, gwastraff, bioamrywiaeth a chynllunio. Bydd pob un yn seiliedig ar ddatblygu cynaliadwy, sef egwyddor drefnu ganolog y Llywodraeth hon.

**Nwy Methan Mewn Meysydd Glo**

**C10 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am chwilio am nwy methan mewn meysydd glo yng Nghymru? OAQ(3)1289(ESH)

**Jane Davidson:** Mae nwy o ffynonellau anghonfensiynol yn dod yn fwyfwy pwysig i gynnal y cyflenwad nwy byd-eang, er y gallai hynny godi materion pwysig yn lleol, gan gynnwys yr effaith ar yr amgylchedd. Mae trafodaethau ag Arolwg Daearegol Prydain yn awgrymu y gallai gwythiennau glo sydd heb eu cloddio yn y de a'r gogledd fod yn lleoliadau pwysig ar gyfer tynnu methan o'r haenen glo. Serch hynny, bydd angen i'r partïon â buddiant ymchwilio ac asesu ymhellach.

**Ardal Adfywio Strategol Arfordir**

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ardal adfywio strategol arfordir gogledd Cymru? OAQ(3)1320(ESH) ***Trosglwyddwyd i'w hateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Mae adfywio o fewn ardal adfywio arfordir y gogledd yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ar draws gogledd Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r blaenoriaethau'n parhau i gynnwys cyflwyno gwelliannau mawr i'r ddarpariaeth dai yng ngorllewin y Rhyl, cynyddu'r cymorth ymarferol i weithredu cydlyniant cymunedol a helpu pobl i gael hyfforddiant a swyddi.

**Ynni Adnewyddadwy**

**C12 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(3)1324(ESH)

**Jane Davidson:** Ar 15 Mawrth, lansiais 'Chwyldro Carbon Isel—Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru'. Mae hwn yn disgrifio'r camau fydd yn cael eu cymryd i gyflymu'r broses o newid economi Cymru yn economi effeithlon sy'n seiliedig ar ynni carbon isel.

## Sbwriel

**C13 Darren Millar:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â sbwriel? OAQ(3)1318(ESH)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod taflu sbwriel yn fater difrifol, ac mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn ganolog i'n hagenda polisi. Trwy'r rhaglen Trefi Taclus, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad, yr ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Cadwch Gymru'n Daclus i newid agwedd y cyhoedd a grymuso cymunedau i wella eu hamgylchedd lleol.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(3)1282(ESH),yn ôl.*

**Llwybrau Seiclo**

**C15 Chris Franks :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu llwybrau seiclo yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1285(ESH)

**Jane Davidson:** Mae nifer o lwybrau beiciau yn y de yn cael eu cynllunio neu wrthi'n cael eu creu gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad a'r consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol. Mae

hynny'n cynnwys buddsoddiad sylweddol o dan y fenter canolfannau teithio cynaliadwy yng Nghaerdydd, ac fel rhan o'r prosiectau parc rhanbarthol y cymoedd a rhwydwaith beicio'r cymoedd.